

Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004
Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru)
2005 (Rheoliad 22)

**Hysbysiad o Gyflwyno Cynllun Datblygu Lleol i Lywodraeth Cymru
Cynllun Datblygu Lleol Sir Gaerfyrddin 2011 - 2021**

Mae Cyngor Sir Gaerfyrddin wedi cyflwyno cynigion ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol i Lywodraeth Cymru er mwyn ei archwilio'n gyhoeddus. Os caiff y cynigion hyn ar gyfer y cynllun eu mabwysiadu byddant yn rhan o'r cynllun datblygu ar gyfer Cyngor Sir Gaerfyrddin (ac eithrio'r ardal sydd ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog), a ddefnyddir yn sail ar gyfer penderfyniadau ar gynllunio defnydd tir yn yr ardal honno.

Mae copïau o ddogfennau'r Cynllun Datblygu Lleol ar gael i'r cyhoedd eu gweld ym mhob un o lyfrgelloedd cyhoeddus y Sir, ac yn swyddfeydd uchod y Cyngor rhwng 8.45am a 5.00pm o ddydd Llun i ddydd Iau, a rhwng 8.45am a 4.30pm ar ddydd Gwener:

- Y Ganolfan Gwasanaethau Cwsmeriaid, 3 Heol Spilman, Caerfyrddin;
- Y Ganolfan Gwasanaethau Cwsmeriaid, Tŷ Elwyn, Llanelli;
- Y Ganolfan Gwasanaethau Cwsmeriaid, Neuadd y Dref, Rhydaman;
- Y Gwasanaethau Cynllunio, 8 Heol Spilman, Caerfyrddin;
- Y Gwasanaethau Cynllunio, Swyddfeydd y Cyngor, Heol Cilgant, Llandeilo.

Maent ar gael hefyd ar wefan y Cyngor sef www.sirgar.gov.uk/ldp.

Mae'r dogfennau'n cynnwys y fersiwn adneuol o'r CDLI, Adroddiad Arfarniad Cynaliadwyedd (yn cynnwys Adroddiad Amgylcheddol), y Cynllun Cyfraniad Cymunedol, Adroddiad Ymgynghori, copïau o'r sylwadau a dogfennau ategol eraill.

Bydd Arolygydd annibynnol yn cynnal archwiliad i benderfynu a yw'r cynllun yn gadarn ai peidio. Dim ond y sawl a wna sylwadau gyda golwg ar newid y Fersiwn Adneuol o'r Cynllun Datblygu Lleol (h.y. gwrthwynebwr) ac y mae ei sylwadau wedi eu cyflwyno 'yn y modd cywir' (h.y. yn unol â hysbysiadau cynharach) sydd â'r hawl i gael gwrandawriad ger bron yr Arolygydd yn yr Archwiliad Cyhoeddus (Adran 64 (6) o Ddeddf 2004).

Caiff hysbysiad ei roi o leiaf chwe wythnos cyn dechrau'r archwiliad. Yr Arolygydd fydd yn penderfynu ar ffurf y gwrandawriad.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar wefan y Cyngor www.sirgar.gov.uk/ldp a chan yr Adain Flaen-gynllunio, 8 Heol Spilman, Caerfyrddin, drwy anfon neges e-bost at blaengynllunio@sirgar.gov.uk neu drwy ffonio 01267 228818.

D Gilbert, A.C.I.S., D.M.S., M.C.M.I
Cyfarwyddwr Adfywio a Hamdden